OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2448 (Cy.211)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*6 Hydref 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Hydref 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992

2.—(1) Diwygir Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) 1992(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(1)(b) o Atodlen 1, yn lle'r geiriau "a qualification accredited by" hyd at y diwedd rhodder—

(i) "a qualification to which Part 7 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**4**) applies which is awarded or authenticated by a body which is recognised by the Office of Qualifications and Examinations Regulation under section 132 of that Act in respect of the qualification, or

(ii) a qualification accredited by the Scottish Vocational Education Council, or

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S 1999/672), a'u breinio'n ddiweddarach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1992/548, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1994/543; O.S. 1995/619; O.S. 1996/636; O.S. 1996/3143; O.S. 1997/656; O.S. 1998/291; O.S. 2003/673 (Cy.83); O.S. 2003/3121; O.S. 2004/1771; O.S. 2004/2921 (Cy.260); Paragraff 2 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg 2005 p.18; O.S. 2006/3396; O.S. 2007/580 (Cy.52), O.S. 2009/2054 ac O.S. 2010/677.

(**4**) 2009 p.22.